S4C Cyw

# Comic Cyw
















**I'r oedolion**
Edrychwch am bawen lawen Llew. Yma mae gwybodaeth am sut y gall y gweithgaredd helpu eich plentyn.

**Wyt ti'n gwybod...?**
Mae pob math o ffeithiau doniol a difyr yn Comic Cyw. Cofia eu darllen!

# Ar y Traeth

## gan Anni Llŷn



Roedd hi'n ddiwrnod braf o haf ym Myd Cyw ac roedd y criw wedi mynd i'r traeth. Roedden nhw'n barod am ddiwrnod gwych!




Ar ôl tipyn, roedd hi'n amser am hufen iâ. Aeth Cyw, Jangl, Bolgi a Triog i nôl un i bawb. Roedd angen saith hufen iâ i gyd!



Pan aeth y pedwar ffrind i nôl yr hufen iâ, pwy ddaeth heibio ond Ben Dant, y môr leidr. Roedd ganddo fap yn ei law.



"A-hoi, ffrindiau!" meddai Ben Dant.

"A-hoi, Capten!" atebodd Llew, Plwmp a Deryn.

"Beth wyt ti'n neud, Ben Dant?" holodd Llew.



Roedd Ben Dant wedi claddu trysor gwerthfawr ar y traeth, ond doedd o ddim yn cofio ble. Felly roedd am ddefnyddio'r map i ddod o hyd iddo.




"Dyna antur!" meddai Llew. "Gawn ni helpu?"

"Wrth gwrs!" atebodd Ben Dant. "Dewch â rhaw!"

Ac i ffwrdd â nhw gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y map.




Roedd y map yn dangos bod angen mynd draw at y creigiau yn gyntaf, dringo drostynt yn ofalus a neidio i lawr yr ochr arall. Gwnaeth Ben Dant hynny, a gwnaeth Llew a Plwmp yr un fath.




Yna, roedd y map yn dangos bod angen cymryd saith cam tuag at y môr cyn neidio deg gwaith yn y dŵr. Gwnaeth Llew a Plwmp yr un fath â Ben Dant, a sblasio Deryn druan!



Ar ôl hynny, roedd angen cymryd wyth cam o'r môr i gyfeiriad arall, ar draws y tywod. A dyma nhw'n cyrraedd yn ôl i'r dechrau!



"Mae'r groes fan hyn!" meddai Ben Dant. Dechreuodd pawb dyllu. Yn sydyn, daeth Llew o hyd i gist drysor Ben Dant.
"Hwrê!" meddai pawb.



Agorodd Ben Dant y gist a thynnu darn mawr o aur allan ohoni.

"A-ha!" meddai. "Aur, i mi gael prynu hufen iâ!"



Treuliodd pawb y prynhawn gyda Ben Dant yn bwyta hufen iâ, chwarae yn y dŵr ac adeiladu cestyll tywod. Dyna brynhawn braf!

# Cwis Ar y Traeth

**I'r oedolion**
Os ydy'ch plentyn yn ansicr, beth am ddarllen y stori gyda nhw eto?

## Sawl hufen iâ oedd eu hangen?



neu



3

7

Rho gylch o gwmpas yr ateb cywir.

## Beth oedd gan Ben Dant i'w helpu?



neu




map

rhestr siopa

## Beth oedd Ben Dant wedi claddu ar y traeth?



neu




trysor

pêl

I wrando ar 'Straeon Comic Cyw' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

# Gweld y Gwahaniaeth

**Mae'n haf ym Myd Cyw. Wyt ti'n gallu gweld 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?**







1 2 3 4 5



Mae Cyw a'i ffrindiau wrth eu bodd yn chwarae **'Rwy'n gweld gyda fy llygaid bach i'** ar y traeth.

Pan fyddi di wrth y dŵr, gofynna i oedolyn ddod gyda ti bob tro.

Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel yn yr haul?

Wyt ti'n gallu gweld rhain yn y llun? Rho ✓yn y bocs

- pêl
- bwced
- castell tywod
- eli haul
- het
- cwch

# Gwersylla gyda Cyw

Mae Cyw a'i ffrindiau wedi mynd i wersylla.
Cysyllta'r dotiau i weld ble fydd Cyw yn cysgu.

I wrando ar y gân
'Hwrê! Hwrê!
Mae'n haf'
**clicia yma**
neu sgania'r cod QR.



# Beicio gyda Llew

**Edrycha ar y lluniau o Llew ar ei feic. Pa ddau lun sydd yn union yr un fath â'i gilydd?**

Mae Llew yn gwisgo helmed i gadw'n ddiogel. Pan fyddi di ar dy feic, beth alli di wisgo i gadw'n ddiogel?

1



2



3



4



# Y Sioe Fawr

gan Anni Llŷn

**Edrycha ar y lluniau a'r geiriau, ac yna darllena'r stori.**
**Bob tro weli di un o'r lluniau yn y stori, dwed y gair yn uchel.**


Cyw


seren


buwch


Plwmp


Deryn


Jangl


llo


dafad


Bolgi


Llew


oen

Roedd  a'r criw wedi mynd i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd ac roedd pawb yn llawn cyffro. Roedd  eisiau chwarae gêm ac roedd wedi paratoi rhestr o bethau i'w gweld yn y Sioe Fawr.

"Ar ôl i chi ei weld, rhowch sticer  ar eich rhestr!" meddai.
Ac i ffwrdd â phawb yn hapus.

Roedd  ar y rhestr. Aeth  ,  a  i'r sied wartheg.
Gwelson nhw  bach a  . Felly, dyma nhw'n rhoi sticer 
wrth y  ar y rhestr.

Roedd  ar y rhestr. Aeth  a  i'r sied ddefaid.
Gwelson nhw  bach a  . Felly, dyma nhw'n rhoi sticer 
ar y rhestr.


mochyn


ceffyl


Cyw


Llew


seren


Triog


jac codi baw


beic modur


tractor

Roedd  a  ar y rhestr hefyd. Gwelodd   a gwelodd   . Felly, dyma nhw'n rhoi dau sticer  ar y rhestr. Ond roedd  wedi mynd i chwilio am rywbeth arall.

Roedd  wedi gweld bod  melyn ar y rhestr. Aeth i chwilio amdano. Gwelodd  glas a  coch ond dim un  .

Ar ddiwedd y prynhawn aeth pawb i'r stand er mwyn gwylio sioe yn y Prif Gylch. Eisteddodd pawb yn gyfforddus. Yn sydyn, gwelodd  chwech  melyn yn dod i'r Prif Gylch. Roedden nhw'n dawnsio! Rhoddodd  sticer  ar y rhestr cyn mwynhau gweddill y sioe gyda'i ffrindiau.








Os wyt ti'n mwynhau darllen am Cyw a'i ffrindiau beth am ddarllen y llyfrau yma?

Tyrd ar antur i'r llyfrgell!

# CYFROLAU'N CANU

© The Reading Agency 2026

## Sialens Ddarllen yr Haf 2026



### Lliw a Llyfr!

Cysyllta'r llyfrau ar y silff gyda'r lliw cywir:

llyfr glas

llyfr pinc

llyfr melyn

llyfr coch

llyfr gwyrdd

### Bach a Mawr?

Rho ▲ yn y llyfr LLEIAF

Rho ■ yn y llyfr MWYAF

### Beth sy'n perthyn i'r llyfrgell?

Cylcha'r eitem sydd ddim yn perthyn yn y llyfrgell:

llyfr

cadair

eliffant mawr

cyfrifiadur

troli llyfrau

### Cyfri!

Faint o lyfrau sydd ar y silff?

Ateb: _____

### Stori a Sain!

Darllena gyda help oedolyn a gwna'r synau wrth ddarllen!

Chwibanodd Mali wrth fynd i'r llyfrgell ...TWIT TWIT!

Syrthiodd ei llyfr i'r llawr ...BŴM!

Ac yn sydyn... clywodd sŵn drymiau ...DWM DWM!


Adar yn canu ...TRYDAR!

Cynulleidfa yn clapio ...CLAP CLAP!

Côr o ddefaid yn brefu ...MEE MEE!

Roedd y stori'n CANU!





### Pa lyfrau hoffet ti eu darllen dros yr haf?




Chwilio am ysbrydoliaeth? Beth am ddewis rhai o'n casgliad llyfrau – Cyfrolau'n Canu!




Ymuna â **Sialens Ddarllen yr Haf** yn dy lyfrgell leol, lle cei di sticeri a gwobrau am ddarllen llyfrau dros yr haf – a'r cyfan AM DDIM!

THE READING AGENCY
UNIVERSAL UNIVERSAL MUSIC GROUP UNITED KINGDOM
YMGOLLI. GO ALL IN.
CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Wyt ti'n gallu lliwio'r llun o'r octopws?

**Wyt ti'n gwybod...?**
Gall octopws newid lliw. Mae'n gallu troi'n lliwiau gwahanol i guddio rhag creaduriaid môr eraill.




**Sawl coes sydd gan octopws?**

# Gwersylla yn yr Ardd

**Wyt ti'n gallu helpu Triog i orffen y patrwm i greu baneri ar gyfer yr ardd?**



S4C Cyw


**6:00**
**Bob dydd** Every day
s4c.cymru/cyw

# Hufen Iâ i Bawb!

Dilyna'r llinellau gyda dy fys i ddarganfod pwy sydd eisiau pa hufen iâ.








Sawl hufen iâ sydd yn y llun?

# Ailgylchu ar y Traeth

**Wyt ti'n gallu helpu Plwmp a'i ffrindiau i gadw'r traeth yn lân drwy gysylltu'r sbwriel â'r bin ailgylchu cywir?**











I wrando ar y gân 'Helpu'r Byd' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

# Dewch i'r Eisteddfod!

**Wyt ti'n gallu helpu Triog a Llew i gyrraedd Maes yr Eisteddfod o'r gwersyll?**





Y Maes






Cysyllta'r dotiau i orffen y pebyll.












Y Maes

# Clic!

gan Sioned Wyn Roberts




Mae Bolgi yn lwcus iawn. Mae e wedi cael camera newydd sbon ac yn mynd i dynnu lluniau o Archarwyr Cyw i gyd.




Mae popeth yn barod – y camera ar y treipod, y fflachlamp yn sgleinio, a'r cyrten bach du dros y cyfan. "Amdani, Archarwyr!" meddai Bolgi. "Pwy sy gynta?"




Siwpyr-bŵer :
neidio yn uchel

clic!




Siwpyr-bŵer:
mynd yn gyflym iawn

clic!





Siwpyr-bŵer:
dod â phethau pell yn agos

clic!




Siwpyr-bŵer :
gwneud bybls

clic!





Siwpyr-bŵer :
chwythu

clic!





Ar ôl i Bolgi osod lluniau'r archarwyr ar y wal, roedd pawb wrth eu boddau.

"Am luniau ardderchog!" meddai Plwmp. "Diolch, Bolgi!"




Ond roedd Bolgi yn teimlo'n drist. Doedd e ddim yn archarwr, doedd ganddo ddim siwpyr-bŵer ac felly doedd dim llun ohono ar y wal.




Camodd Bolgi i ffwrdd. Ond, ar ddamwain, llithrodd ar un o fybls sebonllyd Llew a tharo i mewn i'r camera. O, na! Trychineb!



"Bolgi, edrycha! Ti'n archarwr," meddai Llew.

Rhywsut, roedd Bolgi wedi tynnu llun ohono'i hun yn yr awyr.

Llun arbennig iawn.


# Bolgi




**Siwpyr-bŵer : tynnu lluniau**


# Hwyl gyda Siapiau

**Wyt ti'n gwybod beth yw siâp rhain?**
**Lliwia dy ateb bob tro.**






neu



sgwar

cylch






neu




triongl

seren





neu




petryal

hirgrwn

# Wyt ti'n gallu gweld yr un sy'n wahanol ym mhob rhes?

**I'r oedolion**
Mae gweithgaredd fel hyn yn helpu plant i ddatblygu geirfa wrth drafod yr hyn maen nhw'n ei weld.



I wrando ar y gân 'Cymharu' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

**Pam mae e'n wahanol?**


# Trip i'r Acwariwm

Sawl un o'r rhain sydd yn y llun?




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | 5 | 2 | 3 |
| octopws | cranc | pysgodyn | seren fôr | crwban môr |


# Wyt ti'n gallu ysgrifennu'r geiriau yma?



cranc


octopws





pysgodyn

dolffin



I wrando ar y gân 'O dan y môr' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Pa greaduriaid eraill sy'n byw o dan y môr?

# Ble mae Cyw?

**Mae Cyw wedi mynd i'r Sioe Fawr.**
**Wyt ti'n gallu gweld ble mae'n cuddio?**



Wyt ti'n gallu gweld oen bach yn gwisgo rhuban coch?

# Yn ôl i'r Ysgol

**Lliwia'r llun o Cyw a'i ffrindiau yn cerdded i'r ysgol.**

Sut wyt ti'n teimlo am fynd i'r ysgol?

Jangl

Dewi

Plwmp

Bobi

Llew

Bolgi

Cyw

Triog

Beth am ddarllen y llyfrau yma cyn mynd yn ôl i'r ysgol?












S4C **Cyw**

**6:00**
**Bob dydd Every day**
**s4c.cymru/cyw**


**Cofiwch ailgylchu Comic Cyw ar ôl ei ddarllen - diolch am helpu'r blaned!**







**I'r oedolion**
I danysgrifio i e-bost misol Cyw
**clicia yma**
neu sgania'r cod QR.






I wrando ar 'Straeon Comic Cyw'
**clicia yma**
neu sgania'r cod QR.







**Diolch am ddarllen! Rhifyn 4 yn dod yn fuan!**

**Cynnwys:** Helen Davies, Anni Llŷn, Sioned Wyn Roberts, Sioned Mills
**Dylunwyd gan:** Bait Studio
**Golygydd:** Meinir Wyn Edwards
**Ymgynghorydd Addysg:** Gwenith Blair

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

S4C BOOMCYMRU